Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MAWRTH, 11EG HYDREF, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

***(i gael mynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni)***

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 4/10/22)

**AELODAETH:**

**Cyngor Gwynedd:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |
| Y Cynghorydd Gwilym Jones | Aelod Lleol |
| Y Cynghorydd June Jones | Aelod Lleol |

**Aelodau Cyfetholedig:**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Llywelyn Rhys | Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog |
| I'w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| I'w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| Dr John Jones-Morris | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Clive Moore | Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Cricieth |

**Sylwedyddion:**

# RHAGLEN

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2022/23.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2022/23.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Mawrth, 2022 fel rhai cywir.

## 7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR 8 - 24

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

## 8. ETHOL SYLWEDYDDION

I ethol sylwedyddion i wasanaethu ar y canlynol –

a) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
b) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
c) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

## 9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 7 Mawrth, 2023.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG DYDD MAWRTH, 8 MAWRTH 2022

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cyngor Gwynedd), Y Cynghorydd Llewelyn Rhys (Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog) a Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Barry Davies (Rheolwr Morwrol), Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Dymunwyd gwellhad buan i Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau) yn dilyn anhwylder diweddar.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Clive Moore (Cynrychiolydd Sefydliad y Bad Achub Cricieth), Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Datblygu’r Economi) ac Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 2021, fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI’R HARBWR**

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr harbwr.

(1) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad bras i’r pwyllgor ar faterion yr harbwr am y flwyddyn oedd yn dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2022.

Nododd y Rheolwr Morwrol:-

- Y bu o fudd cynnal cyfarfodydd rhithiol o’r pwyllgor dros y cyfnod diwethaf, ond bod colled o beidio cael presenoldeb pobl o amgylch y bwrdd a’r trafodaethau sy’n digwydd yn naturiol o flaen ac ar ôl y cyfarfodydd. Nid oedd yn hysbys eto beth fyddai’r trefniadau i’r dyfodol, ond nodwyd bod y trefniadau rhithiol wedi gweithio’n wych, a diolchwyd i bawb am hwyluso hynny.

- Yr hoffai ddymuno'n dda i David Eastwood (Cynrychiolydd Buddiannau Harbwr) oedd wedi ymddiswyddo o'r pwyllgor yn ddiweddar. Nododd y bu'n aelod ffyddlon iawn o'r pwyllgor, ac yn gefnogol i'r staff ar hyd y blynyddoedd, a byddai colled ar ei ôl. Ychwanegodd y Rheolwr Morwrol y byddai'n cysylltu â'r sawl sydd â buddiannau masnachol yn yr harbwr i dynnu sylw bod sedd ar gael ar y pwyllgor.
- Y dymunai hefyd ddiolch ar ran y Gwasanaeth Morwrol i'r Cynghorydd Selwyn Griffiths am ei arweiniad a'i gefnogaeth fel Cadeirydd y pwyllgor hwn, ac hefyd fel yr aelod lleol dros Orllewin Porthmadog. Nododd y Cadeirydd ei fod yntau'n ddiolchgar iawn i staff yr harbwr am eu gwaith.
- Bod nifer o elfennau yn yr adroddiad ar goll ar hyn o bryd oherwydd absenoldeb salwch, ond y bwriedid cylchredeg y wybodaeth honno, sef y ffioedd a'r cyllidebau, i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod hwn.
- Yn sgil cysylltu â phob cwsmer yn yr harbwr, y derbyniwyd nifer o geisiadau am angorfeydd. Bwriedid cynnal archwiliad tanddwr o'r angorfeydd yn yr harbwr cyn cyfnod y Pasg, a phwysleisiwyd pwysigrwydd cyflawni'r gwaith hwnnw oherwydd y gallai angorfeydd gwan neu ddiffygiol achosi difrod sylweddol. Ychwanegodd, er i stormydd Chwefror daro ar benllanw, nad oedd yr un cwch wedi torri i ffwrdd, a bod hynny'n amlygu cryfder yr angorfeydd i gymryd yr holl bwysau.
- Yn sgil llwyddiant y system gofrestru Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol ar-lein llynedd, y bwriedid parhau â'r un drefn ar gyfer y flwyddyn i ddod, a byddai'r system yma'n ail-agor ar 31 Mawrth ar gyfer y tymor i ddod.
- Bod y gwasanaeth yn monitro ac yn ail-asesu'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd yn rheolaidd, gan ychwanegu ac addasu asesiadau risg yn ôl yr angen. Nodwyd hefyd bod yr Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau (MCA) wedi cyhoeddi rhestr gyflawn yn y pythefnos diwethaf o harbyrau sy'n cydymffurfio â'r Cod, a bod Harbwr Porthmadog wedi'i gynnwys ar y rhestr honno. Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Datblygu'r Economi, oedd y Deilydd Cyfrifoldeb ar gyfer hyn, ac roedd yntau'n ymwybodol bod yr MCA wedi cymeradwyo'r Cod Diogelwch.
- Bod marcio'r sianel mordwyo a chynnal y cymorthyddion mordwyo yn heriol gan fod y sianel yn newid yn barhaus. Roedd y sianel wedi bod yn newid tuag at Gricieth, ond yn y pythefnos diwethaf roedd wedi symud fwy at Harlech. Nodwyd ymhellach nad oedd unrhyw fater wedi dod gerbron o safbwynt diogelwch yr harbwr.
- Y bwriedid parhau â'r lefelau staffio presennol yn yr harbwr. Rhagwelid y byddai'n gyfnod heriol iawn i'r gwasanaeth dros yr haf oherwydd prinder pobl i lenwi swyddi a'r angen i gynorthwyo yn Abermaw yn ystod Mai/Mehefin oherwydd diffyg staff yno.
- Y rhagwelid y byddem yn cyrraedd ein cyllideb yn Harbwr Porthmadog yn y flwyddyn ariannol bresennol. Roedd y targed incwm ar gyfer y flwyddyn bresennol yn £65m, ond llwyddwyd i ddenu tua £2m o incwm yn fwy na hynny, gan arwain at gyfanswm o tua £67m o incwm yn 2021/22. Hefyd, o ganlyniad i danwariant bychan yn y gwasanaeth o safbwynt Harbwr Porthmadog, rhagwelid y byddai'r gyllideb tua £5m yn uwch na'r nod, ac roedd hynny ar ôl ariannu'r archwiliad tanddwr o'r angorfeydd. Ychwanegodd y Swyddog Morwrol y bu'n flwyddyn heriol, ond roedd yn falch o adrodd bod y gyllideb yn ôl i'r lefel ddisgwyliedig.
- Y byddai'r cynnydd yng ngraddfa chwyddiant yn cael effaith ar gostau'r Harbwr a chostau sy'n gysylltiedig â phobl sy'n gwneud defnydd o'r Harbwr ei hun. Bwriedid codi'r ffioedd tua 3.5%, yn unol â lefel chwyddiant a thargedau'r Cyngor, ond roedd hyn yn parhau i fod ychydig yn is na'r cynnydd mewn rhai harbyrau ar draws y wlad. Gobeithid na fyddai'r cynnydd hwn yn cael effaith niweidiol ar niferoedd cychod yn yr Harbwr eleni.

- Y byddai'r ffi cofrestru cychod yn codi i £50. Byddai'r ffioedd lansio yn aros yr un fath, gyda'r ffi ddyddiol yn parhau yn £20 a'r ffi flynyddol yn aros ar £150, a gobeithid y byddai hynny'n annog pobl i gofrestru am flwyddyn, yn hytrach na thalu o ddydd i ddydd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Codwyd y materion a ganlyn:-

- Pwysleisiwyd bod Harbwr Porthmadog yn rhan greiddiol o Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru, a bod angen manteisio ar unrhyw gyfleoedd posib' all godi yn sgil hynny. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Morwrol y byddai'n cysylltu â Roland Evans, Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant, sy'n arwain ar hyn yn y Cyngor, i drafod ymhellach.
- Holwyd a fyddai'r £5m o incwm ychwanegol yn cael ei fuddsoddi yn Harbwr Porthmadog, neu'n diflannu i mewn i'r cyllidebau canolog. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Morwrol y gwneid pob ymdrech i sicrhau bod pob harbwr arall ar draws y sir yn cyrraedd y gyllideb, ond y byddai'r arian yn cael ei fuddsoddi yn ôl yn y Gwasanaeth Morwrol. Efallai y byddai yna elfennau yn gorfod cael eu buddsoddi mewn llefydd eraill mwy bregus, ond roedd y ffigurau'n dangos ein bod yn buddsoddi'n synhwyrol yn Harbwr Porthmadog, a gofynnwyd i'r aelodau roi gwybod i'r Rheolwr Morwrol pe dymunent i'r gwasanaeth fuddsoddi mewn prosiectau penodol. Cydnabuwyd, fodd bynnag, na fyddai'r sefyllfa mor addawol ar gyfer y flwyddyn nesaf, gyda chostau ar gynnydd a'r gyllideb wedi'i gosod yn barod.

(2) Adroddiad yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a Mawrth 2022, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

Nododd Harbwrfeistr Porthmadog:-

- Gan fod y sianel mordwyo yn symud tuag at Harlech bellach, y gofynnwyd am ganiatâd gan Tŷ'r Drindod i symud Bwi Fairway.
- Bod Bwi Rhif 1 wedi bod ar draeth Harlech ers cyn y Nadolig gan fod y fynedfa i'r traeth wedi codi gymaint fel ei bod yn amhosib' mynd â cherbyd i'w nol.
- Iddo fynd i lawr i draeth Morfa Bychan yn gynharach yn y dydd i weld beth sydd angen ei wneud yno cyn y Pasg. Gobeithid y byddai'r caban yno yn ystod wythnos gyntaf Ebrill a byddai'r staff yn dechrau ar eu gwaith ar y penwythnos cyn y gŵyl banc.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Codwyd y materion a ganlyn:-

- Cyfeiriwyd at ddigwyddiad diweddar pan fu i'r arwyddion 10mya ger y fynedfa i draeth Morfa Bychan gael eu tynnu i lawr yn fwriadol, a diolchwyd i'r Harbwrfeistr am fynd yno i'w hail-osod. Nododd yr Harbwrfeistr y cafwyd problem gyda'r biniau wrth y fynedfa i'r traeth tua mis yn ôl hefyd, wrth i rywun orlenwi'r biniau'n barhaus gyda gwastraff tŷ, ond bod y broblem bellach wedi diflannu yn sgil symud y biniau oddi yno. Nododd y Rheolwr Morwrol ei bod yn drueni bod y sefyllfaoedd hyn wedi codi, ond mai ychydig iawn o broblemau sy'n codi'n gyffredinol, o ystyried y niferoedd sy'n defnyddio'r traeth. Canmolwyd y cydweithio rhwng y Cyngor a'r Heddlu hefyd.
- Holwyd a oedd y biniau ger y fynedfa i draeth Morfa Bychan o Lôn Gwydryn wedi'u symud oddi yno'n barhaol, gan fod pobl wedi bod yn gadael ysbwriel yno. Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Morwrol mai trefniant dros dro oedd

symud y biniau oddi yno i geisio annog pwy bynnag oedd yn gwaredu gwastraff tŷ yn y biniau i wneud trefniadau amgen, ac y byddai'r biniau traeth tymhorol yn eu lle yn unol â'r trefniant arferol yn fuan.

- Nodwyd bod ysbwriel, oedd yn edrych fel ysbwriel oedd wedi dod o'r môr, wedi'i adael am rai wythnosau mewn pentwr yn y fynedfa i Fae Carreg Samson wrth waelod y grisiau ar y llwybr arfordir, a holwyd pwy oedd yn gyfrifol am ei gasglu. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Morwrol ei bod yn wych bod gwirfoddolwyr yn mynd ati i lanhau'r traeth, ond ei bod yn bwysig eu bod yn rhoi gwybod i'r gwasanaeth, fel y gellid mynd yno i gasglu'r ysbwriel. Gorau oll hefyd pe bai'r ysbwriel yn cael ei adael mor agos at ben ffordd â phosib', fel bod modd i gerbyd ei gasglu. Cadarnhawyd y byddai'r Harbwrfeistr yn rhoi sylw i hyn cyn diwedd yr wythnos.
- Holwyd a oedd y mwd dan Cei Newydd wedi cynyddu, ac os felly, a fyddai hynny'n achosi problemau. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Morwrol fod yna gynnydd yn y llaid yn yr Harbwr yn ei gyfanrwydd oherwydd bod y pontwns yn tawelu ac yn dargyfeirio'r dŵr i lefydd eraill. Ychwanegodd fod bwriad i gael contractwr lleol i asesu'r sefyllfa er mwyn gweld beth sy'n bosib'.

Nododd y Rheolwr Morwrol, yn sgil llwyddiant cludo trawsnewidydd ar long i draeth Morfa Bychan ac ymlaen i Drawsfynydd yn 2020, bod bwriad i gynnal ymarferiad tebyg eto y flwyddyn nesaf. Roedd y gwaith cynllunio wedi cychwyn eisoes, a byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei chyflwyno i aelodau'r pwyllgor hwn yn yr hydref. Nodwyd pwysigrwydd sicrhau bod y gwaith o dorri coed ar hyd llwybr y daith yn digwydd ymlaen llaw.

Cyfeiriwyd at amrywiol ddigwyddiadau yn yr Harbwr yn y gorffennol, a nododd y Rheolwr Morwrol ei bod yn braf cael mewnbwn yr aelodau i faterion fel hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu mewnbwn, gan ddymuno'n dda i bawb fyddai'n aelodau o'r pwyllgor yn dilyn yr Etholiadau ym mis Mai.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

## 6. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Hydref, 2022.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30 y.h. a daeth i ben am 6.10 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **11 Hydref 2022** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad cryno er sylw'r Pwyllgor ar faterion harbwr ar gyfer y cyfnod o fis Mawrth 2022 i fis Medi 2022, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag Adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog 1998. Yn ôl y gorchymyn, mae pymtheg (15) aelod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. Ceir rhestr gynhwysfawr o grwpiau a sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y pwyllgor Harbwr yng Ngorchymyn yr Harbwr.

1.4 Sefydlwyd Pwyllgorau Abermaw, Aberdyfi a Phwllheli dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Atodir copi o'r cyfansoddiad.

**2. Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod**

2.1 Mae 104 o gychod wedi bod ar angorfeydd blynyddol yn harbwr Porthmadog yn 2022. Mae hyn yn cymharu â 112 o gychod ar angorfeydd yn 2021.

2.2 Bu gostyngiad bychan yn nifer y cwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf yn harbwr Porthmadog. Er bod rhai perchnogion wedi symud eu cychod i Farina'r Hafan ac eraill wedi marw, mae hefyd yn bosib bod rhan o'r gostyngiad yn nifer y cychod sy'n cael eu hangori yn yr harbwr oherwydd y sefyllfa economaidd bresennol, ac yn benodol, y costau byw ar hyn o bryd.

2.3 Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd bellach yn cofrestru eu cychod pŵer ar-lein drwy Wefan Cyngor Gwynedd. Y tymor hwn, manteisiodd 2380 o aelodau'r cyhoedd ar y cyfle i gofrestru eu cychod pŵer ar-lein. Gan bod gwyliau dramor wedi gweld twf aruthrol eleni, yn enwedig ar ôl nifer o flynyddoedd lle'r oedd cyfyngiadau ar deithio, efallai bod hyn yn egluro rhywfaint pam y gwelwyd gostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

2.4 Yn ogystal â'r ffigyrau uchod, cofrestrwyd 136 o gychod pŵer ar bapur gan bobl sy'n ymweld â'r swyddfeydd morwrol amrywiol ledled Gwynedd. Hefyd, cofrestrwyd 82 cwch gydag injan o dan 10 hp.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1. Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.1.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn gyda gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Porthmadog.

**4. Materion Staffio.**

Nid yw'r lefel staffio yn harbwr Porthmadog wedi newid ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor, gyda'r Harbwr-feistr, Mr Malcolm Humphreys yn cael ei gefnogi gan y cymhorthydd, Mr Richard Hughes. Yn ystod beth fu'n haf prysur, mae staff yr harbwr hefyd wedi cynorthwyo ac wedi gweithio gyda staff ar y traeth ym Morfa Bychan.

4.1 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gallu galw ar staff sydd wedi'u lleoli yn harbyrau Abermaw ac Aberdyfi i gynorthwyo gydag unrhyw waith yn harbwr Porthmadog os oes angen.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Darperir crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter gan y Prif Swyddog Morwrol.

5.2 Yn ystod y cyfnod roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn;

- Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Goleufeydd
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl Powercat yr Harbwr
- Cynnal a chadw'r cwch 'Dwyfor'. Buddsoddi i gynnal a chadw'r cwch er mwyn diwallu gofynion y Cod Ymarfer a chynnal y cyfarpar codi. Mae'r cwch wedi'i leoli'n barhaol yn harbwr Porthmadog i hwyluso'r gwaith o symud cymhorthion mordwyo yn Sianel Porthmadog.
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau
- Prynu cyfleuster storio newydd ar ffurf cynhwysydd llongau yn lle'r un presennol

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2023/24.**

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Porthmadog, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2023/2024, mae'r gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, nid yw'r Gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad o'r cyfraddau y dylai eu gweithredu.

**6. Adroddiad yr Harbwr-feistr.** Bydd Harbwr-feistr Porthmadog yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 a mis Medi 2022, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **11 Hydref 2022** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwr-feistr** |
| **AWDUR** | **M. Humphreys, Harbwr-feistr Porthmadog** |

## H 1 Materion Mordwyo

1.1 Mae'r sianel fordwyo i harbwr Porthmadog wedi cael ei monitro gan staff yr harbwr dros gyfnod yr haf. Mae cwrs y sianel yn parhau yn ddeinamig iawn gyda'r fynedfa i'r sianel ar hyn o bryd yn symud tua chyfeiriad Harlech.

1.2 Mae safle'r bwi Fairway yn parhau i gael ei fonitro i'w gadw yn unol â'r sianel fordwyo tua'r môr. Mae'r bwi Fairway i fod i gael ei gynnal a'i gadw ar ddechrau mis Rhagfyr, a phryd hynny bydd yn cael ei dynnu allan o wasanaeth, ar ôl i ni dderbyn caniatâd gan Dŷ'r Drindod hyd ddiwedd mis Chwefror 2023.

1.3 Yn ystod y flwyddyn, o ran y sianel fordwyo, mae naw (9) Rhybudd Lleol i Forwyr wedi cael eu cyflwyno ers mis Ionawr, o gymharu â 24 yr adeg hon y llynedd. Mae'r Gwasanaeth yn cynghori bod yr holl farciau mordwyo yn eu lle ac yn gwbl weithredol gyda 12 bwi mordwyo mewn gwasanaeth a phedwar marc mordwyo sy'n cael eu marcio fel rhai i'w defnyddio yn achlysurol fel bo'r angen.

1.3.1 Bydd staff yr Harbwr yn parhau i fonitro llwybr y sianel a symud y cymhorthion mordwyo pan a phryd fo angen i sicrhau eu bod yn darparu'r llwybr mwyaf diogel i mewn ac allan o'r harbwr.

1.4 Bydd y Gwasanaeth yn derbyn ei archwiliad blynyddol o Gymorthyddion Mordwyo yn yr Harbwr ym Mhorthmadog a dynesfa'r sianel gan staff Tŷ'r Drindod ar 4 Hydref, 2022. Bydd adroddiad ar eu canfyddiadau yn dilyn. Rhennir canlyniad yr adroddiad â'r Pwyllgor Harbwr ar ôl ei dderbyn.

1.5 Atgoffir morwyr o'r angen i fordwyo'r sianel 1.5 awr naill ochr i'r penllanw wrth fordwyo cwch gyda dyfnder mwy nag 1.5 metr. Atgoffir morwyr hefyd y dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr cyn gadael neu gyrraedd, er mwyn derbyn yr wybodaeth fordwyo a'r wybodaeth tywydd ddiweddaraf.

## H 2 Materion Gweithredol

2.1 **Tymor yr Haf:** Mae'r harbwr wedi gweld nifer sylweddol o ymwelwyr yn yr ardal eleni. Mae staff yr harbwr wedi bod ar wyliadwriaeth gyson ar y lan ac ar y dŵr, i sicrhau diogelwch y bobl sy'n mwynhau'r amgylchedd, gyda phatrolio rheolaidd yn digwydd yn Sianel Porthmadog.

2.1.1 Tra bod mwyafrif helaeth yr ymwelwyr â'r ardal yn parchu amgylchedd yr harbwr, gwelwyd cynnydd amlwg yn nifer y rhybuddion llafar a'r cyngor a roddwyd i ddefnyddwyr Cychod Personol. Mae gollwng ysbwriel a phennau sigarennau yn ddi-esgus o gwmpas yr harbwr yn parhau i fod yn broblem i staff yr harbwr, er gwaethaf presenoldeb biniau ysbwriel priodol. Hefyd, mae'n siomedig adrodd bod staff yn parhau i ddioddef o gamdriniaeth eiriol neu ystumiau wrth iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau.

2.2 Mae'r maes parcio tu ôl i swyddfa'r harbwr wedi casglu dros £12,160 ers mis Ebrill. Cafodd y peiriant talu ac arddangos ei wasanaethu ar gost o £376 + TAW cyn i'r tymor ddechrau. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn edrych ar y posibilrwydd o gynyddu'r gost am barcio yn yr harbwr o £4 am ddiwrnod cyfan i £5, ac o £2 i £3 am barcio am 2 awr.

2.3 Mae mynedfa newydd ddiogel wedi'i chreu yn rheiliau'r harbwr i'r dwyrain o swyddfa'r harbwr i helpu gyda'r cyfleusterau i deithwyr i fyrddio a gadael cychod sydd wedi angori ger y cei yn y lleoliad hwnnw. Hyderir y bydd hyn o fudd i weithrediadau teithwyr o'r harbwr.

2.4 **Cychod yr Harbwr:** Bu i gwch y 'Dwyfor' ddioddef o broblemau diffyg tanwydd ar ddechrau'r tymor a bu'n rhaid glanhau'r tanc tanwydd. Fodd bynnag, mae'r cwch wedi parhau i fod yn weithredol drwy'r tymor. Wrth i'r gaeaf nesáu, bydd y cwch yn cael ei godi allan o'r dŵr i'w gynnal a'i gadw, pan fydd propeler newydd yn cael ei osod a'r holl offer yn cael ei wirio am gydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth cychod gwaith presennol.

2.4.1 Mae'r cwch patrôl Powercat, 'Glaslyn', sydd wedi'i godio i weithio ar y môr i fod i gael injan ddwbl newydd, yn barod ar gyfer dechrau'r tymor nesaf. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn aros am amcangyfrif o'r gost gan gwmnïau lleol.

2.4.2 Tynnwyd y cwch gweini bychan, a ddefnyddir gan staff yr harbwr o'r dŵr ar gyfer gwaith cynnal a chadw blynyddol dros gyfnod y gaeaf.

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Gwnaed gwaith cynnal a chadw ac archwilio ar angorfeydd yr harbwr ar ddechrau'r tymor gan gontractwr angorfeydd lleol ar gost o £2,400 + TAW. Ar ôl archwilio, roedd angen amnewid 10 cadwyn codi gyda chadwyn a siaclau newydd. Ar yr un pryd, cynhaliwyd archwiliad o'r angorfeydd sydd ym mherchnogaeth Clwb Hwylio Porthmadog a Madog Boat Yard Sales.

3.2 Mae tiroedd yr harbwr, gan gynnwys ymylon glaswellt a'r gwrychoedd, wedi cael eu cynnal a'u cadw drwy gydol y cyfnod prysur. Mae staff yr harbwr yn parhau i wneud gwaith cynnal a chadw ar yr ymylon glaswellt sy'n ffinio â llwybr yr harbwr gyferbyn â wal ochr yr harbwr y Ganolfan. Yn ogystal, mae llithrfa'r harbwr hefyd wedi cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd.

3.3 Bydd yr harbwr-feistr yn cyflwyno'r rhaglen waith cynnal a chadw sydd i'w chwblhau yn harbwr Porthmadog yn ystod y cyfnod mis Hydref 2022 - mis Chwefror 2023. Gofynnir am adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.

3.4 Mae'r harbwr wedi derbyn cynhwysydd dur newydd ar gyfer y compownd ar gost o £3,600 + TAW i amnewid yr hen gynhwysydd sy'n gollwng; hefyd, mae'r harbwr wedi rhoi caniatâd i glwb Rhwyfo lleol newydd i storio'r cwch hir Celtic yn y compownd.

**H 4 Materion Eraill**

4.1 **Glanhau Traethau:** Mae'r Gwasanaeth yn dal yn ddiolchgar am y cymorth y mae wedi'i dderbyn gan grwpiau ac unigolion lleol sydd wedi ymgymryd â gweithgareddau glanhau traethau ar draeth y Graig Ddu gerllaw.

4.2 **Is-ddeddfau Harbwr.** Mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio ar ddiweddaru Is-ddeddfau harbwr Porthmadog ar y cyd ag Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd.

**H 5 Digwyddiadau**

5.1 Mae nifer o gwmnïau ffilm a theledu wedi ymweld â'r harbwr a'r ardal gyfagos i ffilmio ar gyfer nifer o raglenni a hysbysebion. Ymysg y digwyddiadau a gynhaliwyd yn yr harbwr dros yr haf oedd ras cwch hir Celtic a digwyddiad beiciau modur hanesyddol.

# CYNGOR GWYNEDD.

## PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR [ ]

**1. Enw**

Gelwir y Pwyllgor yn Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr [ ].

**2. Statws**

2.1 Sefydlir y Pwyllgor dan erthygl 6 Gorchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1998
*neu*
Sefydlir y Pwyllgor dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

2.2 Bydd y Pwyllgor yn adrodd i Gabinet y Cyngor. (Gan y Cabinet mae'r swyddogaeth a'r cyfrifoldeb o weithredu fel awdurdod harbwr).

**3. Aelodaeth.**

3.1 Aelodaeth y Pwyllgor fydd:

- Hyd at bedwar aelod lleol o Gyngor Gwynedd.
- Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n dal portffolio awdurdod harbwr.
- Un aelod o Gyngor Tref [ ]
- Hyd at saith aelod arall i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr harbwr.

3.2 Cabinet y Cyngor fydd yn penodi aelodau'r Pwyllgor a hynny yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodaeth bresennol y Pwyllgor a defnyddwyr yr harbwr.

3.3 Tymor aelodaeth aelodau'r Pwyllgor fydd:

- tan ddyddiad nesaf etholiad llywodraeth leol arferol
- tan y bydd yr aelod yn ymddiswyddo o'r Pwyllgor
- tan y bydd yr aelod yn peidio â bod yn gynghorydd neu'n peidio â chynrychioli’r buddiant y cafodd ei benodi i'r Pwyllgor i'w chynrychioli
- tan y bydd y Cabinet yn penodi aelod arall yn ei (l)le)
  (pa un bynnag fo fyrraf).

**4. Cadeirydd ac Is-gadeirydd.**

4.1 Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd y Pwyllgor yn ethol Cadeirydd o blith ei aelodau sy'n gynghorwyr sir i gadeirio ei gyfarfodydd.

4.2 Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod blynyddol y Cyngor bydd y Pwyllgor yn ethol Is-gadeirydd o blith ei aelodau sy'n gynghorwyr sir i weithredu yn absenoldeb y Cadeirydd.

4.3 I osgoi amheuaeth, nid yw rheol 10(5) na 10(6) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor (cadeirio mwy nag un pwyllgor; tymor swydd cadeirydd) yn berthnasol i'r Pwyllgor.

**5. Cworwm a Phleidleisio.**

5.1 Bydd gan bob aelod o'r Pwyllgor bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron y pwyllgor.

5.2 Caniateir i'r cyrff neu fudiadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr yr harbwr anfon eilydd neu ddirprwy i'r cyfarfodydd yn absenoldeb yr aelod sefydlog a bydd gan y deilydd neu ddirprwy bleidlais yn yr un modd â'r aelod sefydlog

5.3 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor fydd chwarter yr aelodaeth bleidleisiol a fydd yn cynnwys o leiaf un cynghorydd sir.

5.4 Caniateir i sylwedydd o bob un o'r tri phwyllgor ymgynghorol harbwr arall fynychu'r cyfarfodydd ond ni fydd ganddynt bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron.

**6. Amlder Cyfarfodydd.**

6.1 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn arferol ddwywaith y flwyddyn.

6.2 Bydd gan y Cadeirydd hawl i alw cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor os bydd o'r farn fod angen trafodaeth ar unrhyw fater rhwng cyfarfodydd arferol y Pwyllgor.

**7. Cylch Gorchwyl.**

7.1 Swyddogaeth y Pwyllgor fydd ystyried a chynghori'r Cabinet ynglŷn â materion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr harbwr.

7.2 Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried a chynghori'r Cabinet ar unrhyw fater perthynol arall a gyfeirir ato gan y Cabinet i'w ystyried o dro i dro.

7.3 Bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ymgynghori hefo'r Pwyllgor ar unrhyw fater sydd, ym marn y Cabinet, yn debygol o effeithio'n sylweddol ar reolaeth, diogelwch neu ddatblygiad yr harbwr; a bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan y Pwyllgor ond ni fydd dan rwymedigaeth i weithredu yn unol â'r cyngor a roddir.

**8. Trefn y cyfarfodydd.**

Yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y Cyfansoddiad hwn, rheolir gweithgareddau'r Pwyllgor gan reolau gweithdrefn y Cyngor.

# Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

| | | | | | 2022 | | | | | | | | | | | | 2023 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfeirnod | Mesurydd | 2020/21 | 2021/22 | Uchelgais 2022/23 | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Sylwadau /Rheswm dros y perfformiad |
| M1 | **Cyfanswm nifer cwsmeriaid (cytundebau blynyddol) ar angorfeydd marinas ac angorfeydd harbyrau Cyngor Gwynedd.** | | | | 759 | 759 | 759 | 767 | 767 | 767 | 767 | 767 | | | | | | | | Nod ac amcan yw ceisio cynnal nifer cwsmeriaid a sicrhau cefnogaeth a ffyddlondeb cwsmeriaid i barhau i angori yng Ngwynedd. Cynydd sylweddol mewn nifer a chytundeb blwyddyn yn Hafan. Hyn yn anisgwyl ac yn galonogol. Bosib effaith C-19 gan bod lleihad mewn nifer bobl teithio dramor ac o bosib effaith Brexit. |
| | Nifer cwsmeriaid Hafan Pwllheli | | | | 378 | 378 | 378 | 406 | 406 | 406 | 406 | 406 | | | | | | | | Cynydd sylweddol mewn nifer a chytundeb blwyddyn. Hyn yn anisgwyl ac yn galonogol. Bosib effaith C-19 gan bod lleihad mewn nifer bobl teithio dramor. |
| | Nifer cwsmeriaid Doc Fictoria | | | | 89 | 89 | 89 | 94 | 94 | 94 | 94 | 94 | | | | | | | | Marina yn llawn gyda rhestr aros. |
| | Nifer cwsmeriaid Harbwr Pwllheli | | | | 50 | 50 | 50 | 38 | 38 | 38 | 38 | 38 | | | | | | | | Nifer cychod ar angorfa yn yr harbwr allanol wedi aros yn gyson yn unol a'r disgwyl. Plas heli yn cynnig angorfeydd wedi cael effaith ar niferoedd yn yr harbwr allanol. |
| | Nifer cwsmeriaid Aberdyfi | | | | 76 | 76 | 76 | 72 | 72 | 72 | 72 | 72 | | | | | | | | Nifer Cychod Pŵer wedi penderfynu cael angorfa yn lle lansio dyddiol |
| | Nifer cwsmeriaid Abermaw | | | | 54 | 54 | 54 | 57 | 64 | 64 | 64 | 64 | | | | | | | | |
| | Nifer cwsmeriaid Porthmadog | | | | 112 | 112 | 112 | 100 | 104 | 104 | 104 | 104 | | | | | | | | Nifer gwsmeriaid wedi goswng. Dim rheswm penodol ond rhai wedi cymryd angorfa yn Hafan. |


# Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

| Cyfeirnod | Mesurydd | 2020/21 | 2021/22 | Uchelgais 2022/23 | 2022 Ionawr | 2022 Chwefror | 2022 Mawrth | 2022 Ebrill | 2022 Mai | 2022 Mehefin | 2022 Gorffennaf | 2022 Awst | 2022 Medi | 2022 Hydref | 2022 Tachwedd | 2022 Rhagfyr | 2023 Ionawr | 2023 Chwefror | 2023 Mawrth | Sylwadau /Rheswn dros y perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M2 | **Boddhad Cwsmer Harbyrau** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | *Yn 2021/22, cafodd y sylw ei rhoi yn seliedig ar holiadur a gylchredwyd yn Gaeaf 2021. Bwriedir cynal yr un ymgynghoriad gyda Doc Fictoria a Hafan yn gaeaf 2022. Nid oes holiadur wedi ei sefyldu ar gyfer harbyrau eraill hyd yma.* |
| | **Hafan Pwllheli** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Hafan Pwllheli - 2021/22<br><br>Nifer gwsmeriaid Angorfa Blynyddol = 378<br><br>1. Anfodlon 2.12% - Nifer Cwsmer = 8<br>2. Bodlon – 10.59% - Nifer Cwsmer = 40<br>3. Gweddol bodlon - 25.42% - Nifer Cwsmer = 97<br>4. Bodlon iawn - 61.86% - Nifer Cwsmer = 233<br>Holiadur yn seliedig ar drefn 2021 ble caiff yr holiadur ei anfon drwy drefniant gyda'r PMBHA |
| | Bodlon Iawn | | | | 61.86% | 61.86% | 61.86% | | | | | | | | | | | | | |
| | Bodlon | | | | 10.59% | 10.59% | 10.59% | | | | | | | | | | | | | |
| | Gweddol Fodlon | | | | 25.42% | 25.42% | 25.42% | | | | | | | | | | | | | |
| | Anfodlon | | | | 2.12% | 2.12% | 2.12% | | | | | | | | | | | | | |
| | ***Cyfanswm Bodlon Iawn, Bodlon & Gweddol Fodlon*** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **Doc Fictoria** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Doc Fictoria Nifer gwsmeriaid Angorfa Blynyddol = 90<br><br>1. Anfodlon – 5.6% - Nifer Cwsmer = 5<br>2. Bodlon – 30.2% - Nifer Cwsmer = 27<br>3. Gweddol bodlon – 47.2% - Nifer Cwsmer = 42<br>4. Bodlon iawn – 17.0% - Nifer Cwsmer = 16Holiadur yn seliedig ar drefn 2021 ble caiff yr holiadur ei anfon drwy drefniant gyda'r DFBHA |
| | Bodlon Iawn | | | | 17.00% | 17.00% | 17.00% | | | | | | | | | | | | | |
| | Bodlon | | | | 47.20% | 47.20% | 47.20% | | | | | | | | | | | | | |
| | Gweddol Fodlon | | | | 30.20% | 30.20% | 30.20% | | | | | | | | | | | | | |
| | Anfodlon | | | | 5.60% | 5.60% | 5.60% | | | | | | | | | | | | | |
| | ***Cyfamser Bodlon Iawn, Bodlon a Gweddol Fodlon*** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

# Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

| | | | | | 2022 | | | | | | | | | | | | 2023 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfeirnod | Mesurydd | 2020/21 | 2021/22 | Uchelgais 2022/23 | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Sylwadau /Reswn dros y perfformiad |
| M3 | **Nifer Gychod Pwer / Badau Dŵr Personol wedi eu trwyddedu. Gwybodaeth er cadarnhau fod yna sutem cofrestru penodol ar gyfer adnabod pob cwch pwer neu Fâd Dŵr Personol sydd yn lansio yng Ngwynedd.** | | | | 2,434 | 2,434 | 2,434 | 2,380 | 2,380 | 2,380 | 2,380 | 2,380 | | | | | | | | Lleihad yn y nifer a fu wedi cofrestru mewn cymhariaeth a 2021. Hyn ddim yn anisgwyl oherwydd teithio tramor wedi eil gychwyn. Nod ac amcan cofrestru yw sicrhau cynydd yn niferoedd cychod wedi cofrestru er ceisio sicrhau bod pob cwch ar arfordi gwyedd yn arddangos Hawlen Cofrestru. Yn 2022 roedd angen i pob cwsmer gofrestru ar lein ond mae rhai cwsmeriad ddim gyda gallu i wneud hyn ac fe fu i cyfanswm 136 gofrestru ar ddull ffurflen papur ar y safle. Cofrestrwyd 82 cwch gyda peiriant llai na 10Hp ac nid yw y rhain wedi ei cynnwys yn y ffigwr. |
| M4 | **Graddfa adennill Gwasanaeth Morwrol. Dangosyd yn cyflwyno gwybodaeth ar 'werth am arian' drwy gymharu lefel incwm gyda lefel gwariant.** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | (£5,163) DG53 £475 DG54 (£416) DG55 (£6,525) DG60 (£7,021) DG63 (£10,926) Cyfanswm 2021/22 yn well na gwariant = **£221,159**. Canran Graddfa Adennill yn cael ei gadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan yr Uned Cyllid. Byddai Monitro Chwarterol yn gallu dangos os ydym ar trac. |
| M5 | **Canran Cymothyddion Mordwyo o fewn ardal harbwr ac ar arfordir Cyngor Gwynedd yn cael eu rheoli a gwasanaethu yn unol a gofynion Ty'r Drindod. Canran Rhybuddion i Forwyr yn cael eu cyhoeddi o fewn 24 awr i gymhorthydd morwdwyo dod oddi ar ei safle priodol neu fod diffyg yn y cymhorthydd mordwyo.** | | | | 100% | 100% | 100% | 100% | 95% | 100% | 100% | 100% | | | | | | | | Hyd yma rydym ar trac. Archwiliadau Tŷ'r Drindod wedi ei cwblhau mis Medi 2021. Cydymffurfiaeth a Cod Diogelwch Porthladdoedd sydd cael ei archwilio gan Asiantaeth gwylwyr y Glannau (MCA.) Bydd archwiliad Tŷ'r Drindod nesaf ym mis Hydref 2022. |

# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned





**Sylwadau:** Cynydd sylweddol mewn nifer a chytundeb blwyddyn. Hyn yn anisgwyl ac yn galonogol. Bosib effaith C-19 gan bod lleihad mewn nifer bobl teithio dramor.


** Morwrol i gynorthwyo gyda creu graff Bodlonrwydd Cwsmer pan fydd y data

**Sylwadau:** Yn 2021/22, cafodd y sylw ei rhoi yn seliedig ar holiadur a gylchredwyd yn Gaeaf 2021. Bwriedir cynal yr un ymgynghoriad gyda Doc Fictoria a Hafan yn gaeaf 2022. Nid oes holiadur wedi ei sefyldu ar gyfer harbyrau eraill hyd yma.

# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned





| Sylwadau: | Lleihad yn y nifer a fu wedi cofrestru mewn cymhariaeth a 2021. Hyn ddim yn anisgwyl oherwydd teithio tramor wedi eil gychwyn. Nod ac amcan cofrestru yw sicrhau cynydd yn niferoedd cychod wedi cofrestru er ceisio sicrhau bod pob cwch ar arfordi gwyedd yn arddangos Hawlen Cofrestru. Yn 2022 roedd angen i pob cwsmer gofrestru ar lein ond mae rhai cwsmeriad ddim gyda gallu i wneud hyn ac fe fu i |
|---|---|





| Sylwadau: | 2021/22-DG01 (£8,345) DG50 £50,461. DG51 (£233,654) DG52 (£5,163) DG53 £475 DG54 (£416) DG55 (£6,525) DG60 (£7,021) DG63 (£10,926) Cyfanswm 2021/22 yn well na gwariant = £221,159. Canran Graddfa Adennill yn cael ei gadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan yr Uned Cyllid. Byddai Monitro Chwarterol yn gallu dangos os ydym ar trac. |
|---|---|

# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned




| | |
|---|---|
| **Sylwadau** | Hyd yma rydym ar trac. Archwiliadau Tŷ'r Drindod wedi ei cwblhau mis Medi 2021. Cydymffurfiaeth a Cod Diogelwch Porthladdoedd sydd cael ei archwilio gan Asiantaeth gwylwyr y Glannau (MCA.) Bydd archwiliad Tŷ'r Drindod nesaf ym mis Hydref 2022. |


Harbwr Porthmadog Harbour
Mae'r sianel yn newid ei chwrs yn rheolaidd, cynghorir bod morwyr yn cysylltu efo'r Harbwrfeistr ym Mhorthmadog am y wybodaeth ddiweddaraf
The channel changes it's course on a regular basis, it's adviced to contact the Harbourmaster at Porthmadog for the latest information.
01766 512927 / 07879 433 147, VHF 12/16
05/07/2022
Borth y Gest
Cei Balast
17 FLG 6s
15 FLG 2 5s
Bae Samson
12 FLR 4s
Cwt powdr
Powder house
11 FLG5 20s
Traeth y Graig Ddu
Black Rock Sands
Banc y Gogledd
North bank
10 FLR 2.5s
Cynghorir morwyr i beidio mordwyo dros y draethell oni bai fod o fewn 2 awr pob ochor i'r pen llanw, cychod gyda draft fwy na 1.5 i fod fewn 1.5 awr bob ochor i'r pen llanw.
The channel should not be used at any time other than 2hrs either side of high water,vessels with a draft greater than 1.5m should only use the channel 1.5 hrs either side of high water
9 FLG 4 15s
6 FLR 3 10s
Trwyn Harlech Point
N
FAIRWAY
LFL W 10s
52'52.970 N 004'11.200 W
5 FLG 2 5s
Rhybydd / Caution
Nid yw gael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo
Not to be used for navigation
4 FLR 2 5s
1 FLG
2 QFLR

**Harbwr Porthmadog Harbour**

Lleoliad Cyfredol Cymhorthyddion Mordwyo

Present Positions of Aids to Navigation 04/09/2022

Mae'r sianel yn newid yn aml mae angen cysylltu gydar Harbwrfeistr pan fydd angen defnyddior sianel.

**"Buoys in the channel are subjected to frequent movement The Harbourmaster should be contacted for the latest information.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fairway | LFlw 10s | 52° 52.970 N | 004° 11.200 W |
| 1 | Q FL G | 52° 53.074 N | 004° 10.267 W |
| 2 | Q FL R | 52° 53.123 N | 004° 09.742 W |
| 3 | FL G 3s | Occasional | Achlysurol |
| 4 | FL R(2)5s | 52° 53.261 N | 004° 09.876 W |
| 5 | FL G(2)5s | 52° 53.421 N | 004° 09.869 W |
| 6 | FR R (3) 10s | 52° 53.610 N | 004° 09.532 W |
| 7 | FL G (3)10s | Occasional | Achlysurol |
| 8 | FL R (4)15s | Occasional | Achlysurol |
| 9 | FL G (4)15s | 52° 53.965 N | 004° 09.287 W |
| 10 | FL R 2.5s | 52° 54.209 N | 004° 09.234 W |
| 11 | FL G (5) 20s | 52° 54.449 N | 004° 08.965 W |
| 12 | FL R 4s | 52° 54.620 N | 004° 08.424 W |
| 13 | FL G 2s | Occasional | Achlysurol |
| 14 | FL R 6s | Occasional | Achlysurol |
| 15 | FL G (2) 5s | 52° 54.808 N | 004° 08.050 W |
| 17 | FL G 6s | 52° 55.015 N | 004° 07.866 W |

## Harbwr

| DG53 - HARBWR PORTHMADOG | | 01/04/2022 hyd at 31/03/2023 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD | CYLLIDEB | GWARIANT HYD AT 31/03/2023 | GOR (TAN) |
| Staff | AGWE | Costau Staff | 63,530 | 89,132 | 25,602 |
| | | | | | |
| Eiddo | BEID | Tiroedd ac Eiddo | 24,440 | 898 | (23,542) |
| | | | | | |
| Trafnidiaeth | CTRA | Cwch a Cherbydau | 670 | 919 | 249 |
| | | | | | |
| Offer a Chelfi | DCYF | Offer a Chelfi | 12,120 | 7,006 | (5,114) |
| | | | | | |
| Incwm | INCM | Incwm Harbwr | (73,830) | (61,619) | 12,211 |
| | | | | | |
| Cyfanswm | CYF | Cyfanswm | 26,930 | 36,337 | 9,407 |
| | | | | | |
| | | | | | |